



Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 352 – 19 Ionawr 2012
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2012.

1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 351

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 351.

Calon Cenedl – Bu trafodaeth ynghylch cynnal rhai cyfarfodydd o'r Awdurdod tu allan i Gaerdydd. Cynigiwyd bod un yng Nghaernarfon a dau leoliad arall i gyd-fynd ag ymgyrch Calon Cenedl a'r Noson Gwylwyr.

2. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad ysgrifenedig. Roedd wedi cynnal sesiynau briffio gyda'r gwleidyddion parthed Adroddiad Fforwm y Cyfryngau Newydd yng nghwmni DJ a TH. Trafodir y sylwadau a'r ymatebion i'r ymgynghoriad yng nghyfarfod mis Chwefror.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad. Roedd wedi cwrdd â chadeirydd TAC ac roedd yntau wedi estyn gwahoddiad i'r Prif Weithredwr newydd fynyachu cyfarfod TAC ar 08/03/2012.

Yn ogystal â thrafod cyflogaeth a'r tendr cylchgronau, eglurodd ei fod wedi sefydlu tair ffrwd o waith yn ymwneud â'r berthynas rhwng S4C a'r BBC ac wedi penodi unigolion i arwain y gwaith.

4. Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu

Cyflwynodd GR ei adroddiad gan gyfeirio at bwysigrwydd chwaraeon at berfformiad y sianel. Adolygodd ein rhaglenni diweddar yn enwedig dros gyfnod y Nadolig. Nododd y cwynion a fu ynghylch caneuon Saesneg, neu addasiadau o ganeuon Saesneg, yn rhai o'r rhaglenni a chyfeiriodd at waith y comisiynwyr i leihau hyn.

5. Darlledu o'r Cynulliad

Cyflwynodd AEO adroddiad a baratowyd gan EM yn cynnig tri opsiwn ar gyfer darlledu o'r Cynulliad o 1 Mawrth 2012.

6. Adroddiad o'r Bwrdd Masnachol

Adroddodd JD yn ôl i'r Awdurdod yn dilyn cyfarfod o'r Bwrdd Masnachol ar 17.01.2012. Roedd y Bwrdd Masnachol wedi ymateb yn ffurfiol i ymgynghoriad y fforwm Cyfryngau Newydd ac roedd y cyfweiliadau ar gyfer swydd y Cydlynnydd Digidol yn digwydd ar ddiwrnod y cyfarfod.

7. Adroddiad o'r Pwyllgor Cynnwys

Adroddodd CE yn ôl i'r Awdurdod yn dilyn cyfarfod o'r Pwyllgor ar 12.01.2012. Roedd TG a CEv wedi rhoi cyflwyniad i'r Pwyllgor ar raglenni ffeithiol. Cytunwyd y dylid cyflwyno'r Canllawiau Iaith newydd fel llawlyfr i gynhyrchwyr sy'n eistedd o dan y Canllawiau presennol yn hytrach nag yn ei disodli.

8. Cymeradwyo Cynllun Corfforaethol 2012

Cafwyd cyfarfod ddydd Llun i drafod Cynllun Corfforaethol 2012 ac mae PW yn casglu sylwadau gan y cyfarwyddwyr. Bwriedir cyflwyno drafft i IHJ yr wythnos nesaf ac yna cyflwyno copi terfynol i'r Awdurdod ym mis Chwefror ar gyfer eu cymeradwyaeth.

9. Monitro Cynllun Corfforaethol 2011 (sefyllfa diwedd y flwyddyn)

Cyflwynwyd drafft o'r Cynllun Corfforaethol 2011. Nodwyd nad oedd y ffigyrau yn gyflawn felly roedd angen ailgyflwyno'r cynllun i'r Awdurdod pan mae'r wybodaeth yn gyflawn.

10. Cynllun Gweithredu Amrywiaeth (sefyllfa diwedd y flwyddyn)

Cyflwynodd PW yr adroddiad. Nododd fod y Cynllun Gweithredu yn deillio o'r Polisi Amrywiaeth. Mae'r adroddiad yn rhoi adborth ansoddol o'r hyn a gyflawnwyd yn y maes hwn.

11. Y Ddeddf Llwgrwobrwyath

Cyflwynwyd nodyn gan EM yn rhoi trosolwg o'r Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010 a ddaeth i rym yng Ngorffennaf 2011.

12. Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Gwifren
- Adroddiad Cyllid
- Materion Personél